# Rhaglenni Gwledig

## Cefnogi'r broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Sero Net

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Effeithlonrwydd ac Arallgyfeirio ar Ffermydd

## Cynllun Datblygu Garddwriaeth

Mae'r cynllun Datblygu Garddwriaeth yn cynnig cymorth i dyfwyr presennol fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg i wella effeithlonrwydd cynhyrchu a pherfformiad amgylcheddol.

Mae sector garddwriaeth bywiog yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu diwydiant amaethyddol cynaliadwy gan ei fod yn darparu amrywiaeth o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r cynllun newydd hwn yn ymateb i'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth, sydd wedi'i danlinellu o ganlyniad i Covid a rôl garddwriaeth yn ein Cynllun Gweithredu Sero Net.

Nod y cynllun yw:

- Cynorthwyo cynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol i ddatblygu eu busnesau drwy fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg newydd sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r busnes garddwriaethol.
- Galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant mewn modd cynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch.
- Galluogi cynhyrchwyr garddwriaethol i fynd i farchnadoedd newydd.
- Yn ogystal, cynyddu cyflogaeth leol a chefnogi'r economi wledig fel rhan o'r adferiad gwyrdd o Covid-19.

Bydd y cyfnod ymgeisio cyntaf yn cau ar 10 Mehefin 2022. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau cyfalaf sydd rhwng £3k a £50k ar gyfer uchafswm o 40% o gostau anfonebau.

Bwriedir agor cyfnod ymgeisio arall yn 2023.

**I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ewch i:**

https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig